# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Enw'r cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 25 Mawrth 2024 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Rhys A. Jones, Aelod Bwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru<br>Kate Snow, United Utilities<br>Chris Mills, Afonydd Cymru<br>Sarah Hetherington, CNC<br>David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Fraser McAuley, Y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad<br>James Ruggeri, Hybu Cig Cymru<br>Nichola Salter, CNC<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin<br>Matt Walters, Llywodraeth Cymru |
| **Hefyd yn bresennol:** | Brian Stewart, Llywodraeth Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | Marc Williams, CNC<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>Russ Thomas, Hybu Cig Cymru<br>Michelle Griffiths, CNC |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (aelod bwrdd CNC a chadeirydd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol) bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams a nodwyd yr ymddiheuriadau ganddo.

2. Nodwyd bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion llunio'r cofnodion ac y câi'r ffeil ddigidol ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cymeradwyo.

3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda.

- Noder: Mae holl aelodau'r grŵp eisoes wedi cwblhau ffurflenni datgan buddiant ond nodwyd y dylent hefyd wneud datganiad pe bai ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2. Adolygu cofnodion a chamau gweithredu

4. Cadarnhaodd Rhys y câi cofnodion y cyfarfod eu cyhoeddi ar wefan CNC ar ôl i'r grŵp eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol fel eu bod ar gael i'r cyhoedd. Nododd ei bod yn bwysig felly bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2024. Derbyniodd y grŵp gofnodion mis Chwefror fel cofnod cywir.

6. Rhannodd Bronwen y cofnod o gamau gweithredu a oedd ar y gweill o hyd a rhoddwyd diweddariadau ar lafar pan fu modd. Roedd y diweddariadau a ganlyn ymhlith y pwysicaf:

- PG Ionawr 02: Bydd Bronwen Martin yn gweithio gydag arweinwyr y grwpiau fforwm eraill a chydweithwyr yn ehangach i drefnu sesiwn ar wahân i drafod materion yn ymwneud â monitro dip defaid (cyn yr haf).

  - Dywedodd Bronwen ei bod wedi cysylltu â chydweithwyr sy'n arwain yn y maes hwn. Trafodwyd yr awgrym hwn yn fewnol a phenderfynwyd na fydd sesiwn ar wahân ar Diazinon yn cael ei threfnu. Mae sawl grŵp sefydledig eisoes yn trafod dip defaid, megis y grŵp clafr defaid a arweinir gan ffermwyr (dan gadeiryddiaeth Dŵr Cymru) a grŵp a arweinir gan Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru, ac mae Coleg Sir Gâr yn cyflawni'r prosiect i frwydro yn erbyn y clafr. Fodd bynnag, os oes unrhyw ymholiadau penodol i CNC ynglŷn â'r pwnc hwn (yn enwedig ynghylch monitro Diazinon), byddem yn eich annog i ddefnyddio llwybr yr ymholiadau cyffredinol drwy anfon e-bost i ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

- PG Ionawr 05: Bydd Bronwen Martin, CNC yn cymryd camau dilynol gyda Nichola Salter, CNC ynghylch llunio canllaw posibl i ffermwyr ar ddefnyddio haenau MapDataCymru.

  - Atgoffodd Nichola y grŵp mai Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar MapDataCymru. Dywedodd Nichola y byddai'n ymchwilio i bwy yn Llywodraeth Cymru a allai helpu i symud hyn yn ei flaen drwy lunio canllaw.

- PG Ionawr 07: Bydd Bronwen Martin, CNC yn cymryd camau dilynol gyda Nichola Salter, CNC mewn perthynas â phroblemau posibl ynghylch rhoi hysbysiad ysgrifenedig i ffermwyr cyn ymweliadau (ee camreoli slyri).

  - Mae Nichola ar hyn o bryd yn gweithio gyda thimau rheoliadau rheoli llygredd amaethyddol ar eu llythyrau cyn ymweliad a'u llythyrau ôl-ymweliad i'w gwneud yn haws eu defnyddio. Roedd y pryder yn ymwneud â'r ffaith bod ffermwyr o bosibl yn cael gormod o rybudd i gael trefn ar bethau cyn ein hymweliad.

- PG Ionawr 08: Bydd Bronwen Martin, CNC yn cymryd camau dilynol gyda chydweithwyr ynghylch yr heriau sy'n ymwneud â ffermydd o fewn parciau cenedlaethol sy'n cael caniatâd cynllunio ar gyfer gorchuddio storfeydd slyri.

    - Mae Bronwen wedi trosglwyddo'r mater hwn i Keith Davies, CNC i ymchwilio iddo a rhoi adborth yn ei gylch. Dywedodd Dennis y cafodd hyn ei godi yn ystod cyfarfod diwethaf rhanddeiliaid Taliadau Gwledig Cymru, ond bu rhywfaint o ddryswch ac roeddent yn meddwl ei fod yn ymwneud â gwrthod caniatâd cynllunio. Nid yr adran gynllunio a'i gwrthododd, ond y parc cenedlaethol. Mae tîm Taliadau Gwledig Cymru hefyd yn ymchwilio i hyn.

- PG Chwefror 06: Y grŵp i ddarllen Adroddiad y Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gyda'r bwriad o'i dderbyn yn ystod y cyfarfod ym mis Ebrill.

    - Atgoffodd Bronwen y grŵp y caiff yr adroddiad ei drafod yn ystod y cyfarfod ym mis Ebrill. Dywedodd Rhys ei fod wedi adolygu'r cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA ac nad oedd y grŵp hwnnw wedi'i gomisiynu gan yr is-grŵp hwn mewn gwirionedd. I ddechrau, cyflwynodd y Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA adroddiad i'r Grŵp Goruchwylio Afonydd ACA a ddisodlwyd gan Grŵp y Cynllun Gweithredu yn dilyn ail uwchgynhadledd y Prif Weinidog. Felly, nid mater i'r is-grŵp hwn yw derbyn na gwrthod yr adroddiad hwn oherwydd ei fod yn adrodd i Lywodraeth Cymru ac i'r uwchgynhadledd. Cydnabu Rhys fod rôl i'r grŵp hwn o ran gweld a ydyw'r argymhellion yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau ni ac, os felly, sut y gallem eu datblygu. Bydd cyfle i ni drafod yr adroddiad ym mis Ebrill.

7. Roedd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, yn cofio cais blaenorol i Andrew Chambers o Lywodraeth Cymru, ymateb i'r rhai a oedd wedi cyflwyno mesurau amgen yn nodi a fyddent yn cael eu derbyn / gwrthod a pham. Nid oedd hyn wedi cael ei nodi fel cam gweithredu ar y pryd. Dywedodd Andrew Chambers y byddai'n cymryd hynny i'w ystyried ymhellach ac yn meddwl am sut i weithredu yn ei gylch. Ar hyn o bryd, nid yw rhai yn cael eu gwrthod ond mae'n fwy o achos o ystyried ymhellach a ddylid eu cynnwys fel rhan o'r adolygiad pedair blynedd. Felly, nid yw wedi'i benderfynu hyd nes y byddwn wedi gwneud rhagor o waith. Efallai bod hynny'n rhywbeth i ni ei ystyried yn ddiweddarach ar ôl i ni ymgysylltu ymhellach. Dywedodd Chris y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn amlygu pa gynigion y maent yn eu hystyried ymhellach.

    Dywedodd Gareth Parry o Undeb Amaethwyr Cymru y dylem gael y cyfle fel grŵp i drafod yr holl gynigion a gyflwynir yn hytrach na'r rhai dethol sydd wedi'u cyflwyno i'r grŵp hwn. Mae angen inni gael yr wybodaeth honno gan fod sefydliadau eraill wedi cyflwyno mesurau amgen ac mae angen inni ddeall pam y gwrthodwyd rhai penodol. Soniodd Andrew am yr amserlenni ar gyfer trafod y rhain. Gwnaeth y Gweinidogion ymrwymiad i ystyried rhai o'r cynigion hyn ac a ddylid bwrw ymlaen â hwy fel rhan o'r adolygiad pedair blynedd. Efallai y byddai'n well nodi rhywbeth yn ysgrifenedig neu efallai y dylid ei drafod o fewn y grŵp hwn. Mae hynny'n rhywbeth i ni ei gymryd i'w ystyried a meddwl am y ffordd orau i ni wneud hynny gyda'r amser sydd gennym ni.

***PG 25 Mawrth 01: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, i ystyried a fydd / sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu manylion ynghylch pa gynigion o ran mesurau amgen a gaiff eu derbyn, eu gwrthod neu eu hystyried ymhellach a pham.***

8. Soniodd Fraser McAuley o'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad am ymweliadau fferm CNC sy'n ymwneud â rheoliadau rheoli llygredd amaethyddol a gofynnodd a fydd cyfle yn ddiweddarach yn y flwyddyn i gael adborth gan y timau hynny ynghylch yr hyn a ganfuwyd, y gwersi a ddysgwyd ac ati fel y gellir eu cyfleu i'r diwydiant i'w helpu i ymdrin â'r ymweliadau. Dywedodd Rhys ein bod yn gobeithio cael diweddariad ynghylch yr ymweliadau hyn yn ystod y cyfarfod ym mis Ebrill.

9. Soniodd Rachel Lewis-Davies o NFU Cymru am y lefelau cydymffurfio, a chyfeiriodd at sylwadau a wnaed gan y Gweinidog Lesley Griffiths, a oedd ar fin ymadael, yn ystod y bedwaredd uwchgynhadledd ar ffosffadau yr wythnos diwethaf ynghylch lefelau diffyg cydymffurfio. Hoffai NFU Cymru ddeall mwy am lefelau diffyg cydymffurfio. Mae'r rhain yn rheoliadau hynod gymhleth y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i ffermwyr lynu wrthynt. Mae yna hanesion bod arolygwyr fferm eisiau mynd â chofnodion fferm i ffwrdd gyda nhw oherwydd nad ydynt yn deall a ydynt yn gywir ai peidio. Gofynnodd Rachel am fanylion gan CNC am yr wybodaeth a rannwyd â'r Gweinidog o ran lefelau diffyg cydymffurfio.

***PG 25 Mawrth 02: Llywodraeth Cymru i roi gwybodaeth am fanylion y diffyg cydymffurfio y cyfeiriwyd ato gan Lesley Griffiths yn ystod yr uwchgynhadledd ddiweddar ar afonydd.***

10. Eglurodd Nichola fod swyddogion yn gofyn am gael mynd â'r cofnodion i ffwrdd fel nad ydynt yn cymryd oriau o amser y ffermwr wrth gynnal asesiad cynhwysfawr iawn o gydymffurfedd tra'u bod ar y safle. O'r cofnodion, rydym yn edrych am gydymffurfedd â llu o wahanol bethau – sy'n cymryd amser. Felly, yn lle eistedd yno am oriau, rydyn ni'n mynd â'r cofnodion i ffwrdd. Yn hyn o beth, nid oes angen i'r ffermwr dreulio'i amser gwerthfawr yn edrych trwy'r cofnodion. Dywedodd Rachel mai adborth anecdotaidd oedd hyn a oedd wedi dod i law gan aelodau NFU Cymru.

11. Awgrymodd Rachel fod cyd-destun yr eitem nesaf ar yr agenda yn bwysig, yn enwedig oherwydd ein bod ni i gyd (gan gynnwys dyletswyddau cyrff cyhoeddus) yn gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn berthnasol i gynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, nid cynaliadwyedd amgylcheddol yn unig. Mae'r diffiniad hwnnw wedi'i ailddatgan gan Ddeddf Amaethyddiaeth 2023 a'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, sy'n sôn am gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy; ac mae hefyd yn cynnwys cyfeiriad at fusnesau fferm cydnerth. Mae angen inni gofio'r cyd-destun economaidd y mae'r adolygiad hwn o'r rheoliadau yn cael ei gynnal ynddo.

    Gofynnodd Chris Mills o Cyswllt Amgylchedd Cymru, wrth ystyried cydymffurfio â'r gyfraith, ble mae hynny'n gweddu i'r ddadl honno. Dywedodd Rachel ein bod yn gweithredu yn y gofod o adolygu'r gyfraith honno, felly mae'n ymwneud â sicrhau nad yw'r adolygiad yn tanseilio busnesau sy'n hyfyw yn economaidd. Gallwn ddatrys y broblem hon drwy roi'r gorau i ffermio yng Nghymru yn llwyr, ond mewn gwirionedd nid yw hynny'n ateb cynaliadwy i fusnesau fferm nac i'n cymunedau gwledig. Dywedodd Chris mai dyma'r gyfraith a hyd nes y bydd y gyfraith honno'n cael ei newid, mae'n rhaid i bobl gydymffurfio â hi.

    Cododd Gareth Parry o Undeb Amaethwyr Cymru nifer o bwyntiau cyffredinol. Y cynnig cyntaf a gyflwynwyd gan Undeb Amaethwyr Cymru fel rhan o'r mesurau amgen oedd yr angen i ehangu rheoliad 44. Mae effeithiolrwydd y rheoliadau ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar un amcan, sef lleihau llygredd amaethyddol. Mae angen i'r holl broses

hon ystyried goblygiadau cadarnhaol a negyddol y rheoliadau hyn (ee goblygiadau economaidd a chynaliadwyedd o ran adnoddau CNC, effeithiau ar Dŵr Cymru, awdurdodau cynllunio ac ati). Mae'n bryder mawr bod yr adolygiad hwn yn canolbwyntio'n gyfyng ar un amcan. Mae'r ail bwynt yn ymwneud â chywirdeb data, a dywedodd Gareth iddo godi hyn yn ystod y drydedd uwchgynhadledd ar lygredd afonydd ychydig fisoedd yn ôl. Mae angen inni gael cronfa ddata y gallwn i gyd gytuno arni. Rhaid inni hefyd ymddiried yn y data a fydd, yn anochel, yn cael eu defnyddio fel mesur o effeithiolrwydd y rheoliadau hyn ac fel rhan o'r broses adolygu hon. Daw hyn yn ôl at amcan cyntaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol, sef cael dealltwriaeth gyffredin o achosion llygredd, sy'n gwbl hanfodol cyn i'r broses adolygu hon barhau. Yn olaf, tynnodd Gareth sylw at bryderon y bydd yr atebion technolegol amgen a gyflwynwyd ddwy neu dair blynedd yn ôl fel ffordd o wella'r rheoliadau yn cael eu tanseilio gan yr adolygiad pedair blynedd, sy'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd y rheoliadau sydd eisoes ar waith. Mae sôn am ehangu'r rheoliadau i gynnwys ffosfforws neu fathau eraill o wrtaith ond roedd y mesurau amgen a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar gwestiwn cwbl wahanol. Mae'n bosibl ein bod bellach yn ymdrin â dau bwynt cwbl wahanol mewn un adolygiad.

12. Dywedodd Rachel nad yw'r adolygiad hwn yn gweithredu mewn gwagle ac mae'n amlwg ein bod yn sylwi ar gynnydd mewn emosiynau o fewn y gymuned ffermio. Mae ffermwyr unigol wedi cyfarfod â'r Gweinidog ac mae eu pryderon nid yn unig yn ymwneud â'r cynllun ffermio cynaliadwy, ond hefyd TB buchol a'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Mae'r materion hyn yn cyfrannu at lefelau uchel o straen a gorbryder ac, mewn rhai achosion, rhwystredigaeth a dicter gwirioneddol o fewn y diwydiant. Yn ystod y cyfarfodydd hynny gyda'r Gweinidog, codwyd disgwyliadau ynghylch capasiti a gallu'r adolygiad hwn i gyflawni nifer o newidiadau cadarnhaol i'r Rheoliadau a fydd yn eu gwneud yn fwy ymarferol i'r diwydiant. Mae hwn yn gyd-destun pwysig i'w gadw mewn cof. Mae ffermwyr bellach yn gwylio'r gwaith hwn yn agos iawn oherwydd bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi codi disgwyliadau yn hyn o beth.

## Eitem 3. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Adolygiad pedair blynedd

13. Dywedodd Andrew Chambers, o Lywodraeth Cymru, ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r grŵp hwn ynghylch y mesurau amgen a'r broses adolygu pedair blynedd ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

14. Eglurodd Andrew y byddai'r adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd y Rheoliadau o ran lleihau llygredd. Mae gan Weinidogion rwymedigaethau statudol tra phwysig mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd a'r ddyletswydd i reoli tir yn gynaliadwy. Mae'r rhain i gyd yn berthnasol i gyd-destun trosfwaol yr adolygiad. O ran deunyddiau eraill sy'n mynd i'r tir ac argaeledd tir ar gyfer slwtsh carthion, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru ac eraill. O ran atebion technegol posibl, mae rhan o'r adolygiad hwn yn ymwneud â deall sut y gall y Rheoliadau hwyluso arloesi technegol, a darparu ar eu cyfer.

15. Rhannodd Andrew yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa pethau yng nghyd-destun yr adolygiad. Ar 27 Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig a gyfeiriodd at yr adolygiad a bwriad y Gweinidog i benodi cadeirydd i oruchwylio'r

adolygiad. Mae hynny o bosibl yn newid pethau o ran goruchwyliaeth, ond mae Gweinidogion eisoes wedi gwneud ymrwymiadau, er enghraifft, i fwrw ymlaen â rhai o'r mesurau amgen a gynigir fel rhan o'r adolygiad pedair blynedd ac i ystyried rhai ohonynt ymhellach i'w cynnwys o bosibl. Mae Gweinidogion yn gwneud ymrwymiadau ar ran Llywodraeth Cymru, ac felly nid ydym yn gweld y bydd parhau i drafod y mesurau amgen yn achosi unrhyw broblemau.

16. Rhannodd Andrew gyflwyniad a oedd yn crynhoi wyth cynnig ar gyfer mesurau amgen, ac fe dynnodd sylw at rai pwyntiau trafod i'r grŵp eu hystyried. Dosbarthodd Llywodraeth Cymru bapur cyn y cyfarfod a oedd yn rhoi cefndir i reoliad 45 o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ynghyd â gwybodaeth am y mesurau amgen y mae angen eu datblygu neu eu hystyried ymhellach. Defnyddiwyd y papur hwn ynghyd â'r cyflwyniad fel sail i'r trafodaethau yn y cyfarfod hwn.

17. Roedd Rachel yn cofio'r ymrwymiad i gael cadeirydd allanol annibynnol i oruchwylio'r broses adolygu a gofynnodd beth mae'r grŵp hwn yn ei wneud o'i gymharu â'r hyn y bydd y cadeirydd annibynnol yn ei wneud. Roedd Rachel hefyd am ddeall y broses recriwtio, a'r broses o bennu'r cylch gorchwyl, ar gyfer y cadeirydd annibynnol hwnnw ac unrhyw grŵp cysylltiedig sy'n cael ei sefydlu. Dywedodd Andrew fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd a bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r uned cyrff cyhoeddus ar y broses a fydd yn cael ei chyflawni. Soniodd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r adolygiad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu recriwtio cadeirydd yn weddol gyflym. Mae sicrhau bod cadeirydd yn ei le yn flaenoriaeth, a bydd hynny'n helpu i lunio gweddill y broses adolygu a gweddill y broses ymgysylltu. Nid ydym am ymrwymo'r unigolyn hwnnw i unrhyw beth ar hyn o bryd pan nad oes modd iddo gyfrannu – mae hynny'n cynnwys y cylch gorchwyl ar gyfer ei waith ymgysylltu, naill ai â'r grŵp hwn neu â rhanddeiliaid eraill. Fodd bynnag, rydym yn dal i ystyried bod y grŵp hwn yn rhan hollbwysig o'n proses ymgysylltu ar gyfer yr adolygiad. Y cadeirydd sydd i oruchwylio'r broses, a bydd yn adolygu'r holl bwyntiau a drafodwn heddiw. Bydd yr holl bwyntiau sydd gennym yn y cefndir hefyd yn rhan o'r broses adolygu, ond byddwn yn aros nes bod cadeirydd yn ei le a thrafod gydag ef neu hi sut y mae'n dymuno symud ymlaen.

18. Bu'r rhai a fu'n rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen yr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol yn trafod y cysylltiadau â'r adroddiad a gyflwynwyd ganddynt i Lywodraeth Cymru i'w ystyried. Rhannodd y grŵp ehangach hefyd adborth a mewnbwn ynghylch y mesurau amgen a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

19. Adolygodd y grŵp gynigion y mesurau amgen a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y prif bwyntiau trafod yn ymwneud â'r canlynol:
    - Pryderon ynghylch penodi cadeirydd annibynnol
    - Heriau cyffredinol o ran cydymffurfedd
    - Cymhlethdod presennol y rheoliadau
    - Mecanweithiau a rhyngweithiadau eraill â Rheoliadau eraill (ee Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Rheoliadau Gwastraff ac ati)
    - Cynlluniau Rheoli Maethynnau a phryderon ynghylch cynnwys maethynnau eraill / holl faethynnau (ee ffosfforws) yn y Rheoliadau
    - Cysylltiadau posibl â chamau gweithredu cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chymorth dilynol (ee llinell sylfaen a chymhellion)
    - Pecyn offer rheoleiddio a llesiant ffermwyr

- Y dystiolaeth sydd ar gael, datblygiadau mewn technoleg a hyblygrwydd o ran defnyddio cyfnodau caeedig
- Diffiniad o slyri a'r ffracsiwn hylifol ar ôl gwahanu
- Ymarferoldeb taenu'n dra chywir
- Tystiolaeth ynghylch clustogfeydd a risgiau
- Trafodaethau ynghylch storfeydd o dan y ddaear
- Problemau o ran cyfuno dwy broses – adolygu effeithiolrwydd y rheoliadau fel ag y maent a defnyddio mesurau amgen i benderfynu a fyddent yn mynd i'r afael â phroblemau

## Eitem 4. Unrhyw faterion eraill

20. Cododd Rachel nifer o bwyntiau pellach at ddiben y cofnodion:

    - Mae'r Gweinidog wedi codi'r hyn a ddisgwylir oddi wrth ffermwyr mewn cysylltiad ag adolygu'r rheoliadau. Hoffai NFU Cymru ddeall mwy am y broses ymgynghori, yr amserlen, a hefyd yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w wneud i gyfathrebu cyn yr adolygiad hwn, fel bod ffermwyr yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a'r hyn y maent yn debygol o'i weld.

    - Cyn yr adolygiad o barthau perygl nitradau yn ôl yn 2016, rhannodd CNC y pecyn tystiolaeth â'r diwydiant yn 2015. Pwy sy'n llunio'r pecyn tystiolaeth, CNC neu Lywodraeth Cymru neu'r ddau, a phryd y gall y diwydiant ddisgwyl ei weld?

    - A fyddai modd i Lywodraeth Cymru ddarparu papur o ran y cyd-destun deddfwriaethol – unrhyw adolygiad, unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw, a fydd angen newid y ddeddfwriaeth, a fydd hyn yn digwydd drwy offeryn statudol, a fydd yn weithdrefn gadarnhaol, ac ati.

    - O ran yr asesiad effaith rheoleiddiol, hoffai NFU Cymru ddeall mwy am y broses a'r amserlen ar gyfer hynny a sut y mae'r diwydiant yn mynd i fod yn rhan ohonynt. Ar 5 Hydref 2022, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r terfyn o 170 cilogram yn destun asesiad effaith rheoleiddiol ac y byddai'r asesiad hwnnw'n llywio'r broses o adolygu'r rheoliad. Felly ble ydych chi o ran yr asesiad effaith rheoleiddiol penodol hwnnw a sut mae hwnnw'n llywio'r adolygiad yr ymddengys ei fod yn mynd i gael ei gynnal?

    - Mae'r gyfradd hunanladdiadau yn uchel iawn yn y diwydiant amaethyddol. Mae un ffermwr yr wythnos yn lladd ei hun yn y DU. Cyfeiriodd Rachel y grŵp hwn a Llywodraeth Cymru at yr adroddiad a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019, sy'n dangos yn glir bod rheoliadau yn pwyso'n drwm iawn ar feddyliau pobl. Mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau bod yr adolygiad yn cadw hyn mewn cof wrth lunio argymhellion. Mae NFU Cymru yn galw am adolygiad annibynnol o'r holl reoliadau a pholisïau sy'n effeithio ar ffermwyr ac yn credu y dylai'r adolygiad annibynnol hwnnw lywio'r broses o adolygu'r rheoliadau. Dywedodd Rachel fod ganddi ddiddordeb mawr mewn gweld bod CNC yn cyflogi cynghorydd iechyd, ac mae NFU Cymru yn gofyn am gael manylion cyswllt y cynghorydd iechyd hwnnw oherwydd eu bod yn dymuno trefnu cyfarfod brys i drafod llesiant ffermwyr gydag ef.

21. Dywedodd Andrew fod Llywodraeth Cymru yn drafftio manyleb dechnegol ar gyfer y gwaith asesu effaith rheoleiddiol hwnnw. Mae hwn yn un o'r pethau y gwnaeth y

Gweinidog ymrwymiad iddo, felly rydym yn tybio y gallwn barhau i weithio ar hynny cyn i'r cadeirydd gael ei benodi. Gan dybio y bydd cadeirydd yn ei le yn gyflym, mae'n amlwg y bydd y sawl hwnnw'n gallu cyfrannu at hynny hefyd.

22. Gofynnodd Dennis am eglurhad ynghylch a ydyw Lesley Griffiths AS wedi'i hailbenodi. Cadarnhaodd Andrew mai Huw Irranca-Davies yw'r Ysgrifennydd Cabinet newydd dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

23. Dywedodd Bronwen y byddai'r rhai a fu'n bresennol yng nghyfarfod Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yr wythnos diwethaf wedi clywed bod CNC yn cynnal adolygiad o'r holl fforymau yr ydym yn eu hwyluso a'u cefnogi. Mae'n gynnar iawn yn y broses, ond fel rhan o'r broses honno rydym yn bwriadu dosbarthu holiadur i aelodau a rhanddeiliaid er mwyn casglu rhywfaint o adborth. Nid yw'r amserlen wedi'i chadarnhau ond roeddem am godi hyn er ymwybyddiaeth.

24. Dywedodd Rhys fod cyfarfod Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn gyfarfod defnyddiol iawn ar y cyd o ran dysgu am y cynlluniau ar gyfer monitro ansawdd dŵr ledled Cymru dros y blynyddoedd nesaf.

25. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Llun 22 Ebrill 2024.

26. Ni chodwyd unrhyw fater arall.